



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Henllan  
Ysgol Henllan  
Ffordd Dinbych  
Henllan  
LL16 5AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Henllan yn cyfarfod yn neuadd Ysgol Henllan, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r lleoliad yn agor am bum prynhawn yr wythnos rhwng 11.30am a 3.15pm. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau gofal ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae wedi ei gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae dau blentyn yn derbyn addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol yn y lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blant anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei rôl yn Nhachwedd 2015. Mae'n un o ddau ymarferwr amser llawn ac mae'r naill a'r llall ohonynt yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc.

Arolygwyd y lleoliad gan Estyn ddiwethaf yng Ngorffennaf 2010 ac arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2015.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae addysgu pwrpasol yn ennyn diddordeb plant i wella eu gwaith bob dydd yn effeithiol
- caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n briodol
- mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn darparu gweithgareddau diddorol ar gyfer plant y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored
- mae ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant yn sensitif ac yn creu ethos cynnes a meithringar o fewn y lleoliad
- mae'r amgylchedd dysgu wedi'i drefnu'n effeithlon i dargedu diddordebau plant yn llwyddiannus
- mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys neuadd yr ysgol, yn bwrpasol
- mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleusterau'r ysgol trwy brofiadau ymarferol ac ymchwiliol sy'n gwella cyfleoedd plant i ddysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd yn llwyddo i wella darpariaeth y lleoliad mewn ffyrdd cadarnhaol a chefnogol ac yn rheoli cynllunio datblygiad yn dda
- mae hunanarfarnu yn rhan addysgiadol o brosesau gwella'r lleoliad
- mae ymarferwyr yn elwa ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol effeithiol
- mae partneriaethau llwyddiannus gyda rhieni ac asiantaethau allanol yn cefnogi arferion addysgu a dysgu'r lleoliad yn dda
- mae'r bartneriaeth â'r ysgol yn fuddiol i ddatblygu'r lleoliad ymhellach
- mae'r pwyllgor rheoli'n gefnogol ac yn effeithiol
- mae'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu yn synhwyrol

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio a modelu'r Gymraeg yn gyson ac yn gywir
- A2 Gwella'r broses gynllunio i ddiffinio diben tasgau penodol yn glir
- A3 Defnyddio asesiadau ymarferwyr yn effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant
- A4 Sicrhau bod y targedau yn y cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

dd/b

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, na'u lles. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau hyblyg a diddorol, sy'n cymhell plant i ddysgu trwy dasgau ymarferol a chreadigol. O ganlyniad, mae cyfleoedd buddiol yn digwydd bob dydd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau meddwl plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg mewn llawer o feysydd dysgu, ac maent yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfrif cerrig mân i mewn i droli, trafod sut i sillafu geiriau tair llythyren gan ddefnyddio meddalwedd addysgol a chwarae sarff ac ysgol gan ddefnyddio dis.

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb plant yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn ystyried anghenion plant unigol yn ddigon da i dargedu'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Nid yw'r broses gynllunio bresennol yn diffinio'n ddigon clir fwriadau dysgu a diben tasgau parhaus, cyfoethogol a ffocws. Er bod ystod o wahanol dasgau'n bodoli, nid yw'r lleoliad yn eu harfarnu'n ddigon da i dargedu anghenion dysgu pob plentyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr yn sicrhau'r cynnydd gorau posibl yn nysgu'r plant trwy gynllunio effeithiol.

Mae heriau rheolaidd dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd, yn cefnogi datblygiad medrau datrys problemau plant yn bwrpasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhoi peli wedi'u rhifo yn y drefn gywir mewn silindr, trefnu potiau, pridd a hadau yn gywir i blannu berwr a gweithio chwaraeydd cryno ddisgiau yn effeithlon.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol plant yn effeithiol. Maent yn galluogi plant i archwilio ac arbrofi wrth ddringo ar offer antur, reidio beiciau yn yr awyr agored, peintio eu dwylo i greu printiau, a chreu offer bwydo adar gan ddefnyddio llinyn a grawnfwyd.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gynnig eu syniadau personol i wella gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at frwdfrydedd plant wrth ddysgu trwy chwarae, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae gweithgareddau buddiol o'r fath yn cynnwys sgriblo siapiau ar îsles, peintio waliau â dŵr a brwsh, a thrin a thrafod llyfrau mewn ardaloedd â chlustogau.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn briodol. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferwr yn modelu'r Gymraeg yn gyson a chywir. Yn gyffredinol, maent yn modelu ymadroddion yn addas. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag y bo modd trwy ganu caneuon ac ailadrodd rhigymau. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymreig yn briodol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel tiliau, teganau electronig a chyfrifiaduron llechen a chwaraeydd cryno ddisgiau. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn llawn trwy ddefnyddio meddalwedd addysgol yn bwrpasol ar y cyfrifiaduron llechen.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Mae ymweliadau â chapel, siop, swyddfa bost, parc a fferm leol yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm. Mae ymwelwyr sy'n dod i'r ysgol, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, hylenyddion deintyddol a swyddog diogelwch ar y ffordd, yn addysgu'r plant yn briodol am rolau pobl yn eu cymuned.

### **Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn croesawu plant yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, ac maent yn parhau â'r dull cynnes hwn trwy gydol y sesiwn. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad plant yn mhob mathau o weithgareddau yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i addysgu'n bwrpasol. Maent yn dathlu llwyddiannau plant ac yn eu herio'n gyson yn ystod tasgau wedi'u harwain gan oedolion. Enghraifft ddiddorol o hyn yw'r her a osodir i unigolion reoli car electronig ac esbonio'r siâp y mae'n ei greu wrth iddo deithio. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant, gan ysgogi a chymell plant i berfformio ar eu gorau, i sicrhau canlyniad terfynol ar gyfer pob tasg.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol, fel adeiladu tyrau uchel â blociau pren a chyfrif faint o botiau o bridd y maent yn eu llenwi. Mae ymarferwyr yn annog symud rhydd rhwng gwahanol ardaloedd dysgu, pan fydd y plant dan do neu yn yr awyr agored. Maent yn annog plant i gydweithio â phlant eraill yn effeithiol yn ystod tasgau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Mae hyn yn cynnwys creu marciau ar fyrddau sialc, rholio ceir ar wahanol gyflymderau i lawr ramp a dylunio cardiau â glud a gwahanol siapiau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a gwneud penderfyniadau plant. Mae hyn yn amlwg pan fydd plant yn paratoi te parti gan ddefnyddio cylllyll a ffyrac a llestri yn yr ardal chwarae rôl ac yn llenwi bwcedi o dywod â rhawiau o feintiau gwahanol i wneud cestyll tywod.

Mae'r lleoliad yn defnyddio gweithdrefnau addas ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad. Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei choladu yn cydberthyn yn dda i ddeilliannau plant unigol wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn defnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen yn gywir.

Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi asesiadau dyddiol yn briodol, yn llyfrynnau cofnodi'r awdurdod lleol. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod tasgau. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r hyn y gall plant ei wneud. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn drylwyr.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant ar ddiwedd y sesiynau. Pan fyddant yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol, mae ymarferwyr yn cyflwyno cofnod llawn gwybodaeth ar gynnydd y plant i rieni, sydd wedi'i seilio ar eu sylwadau dyddiol dros gyfnod.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Defnyddiant sesiynau grŵp yn effeithiol i annog plant i ganolbwyntio ar deimladau ei gilydd a gweithredu'n gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys galluogi iddynt siarad yn eu tro a rhannu offer a bwyd yn synhwyrol yn ystod amseroedd byrbryd. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn hyrwyddo gwerthoedd fel tegwch a pharch yn llwyddiannus.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrion a dweud diolch bob dydd. Mae hyn yn creu tawelwch wrth i blant eistedd i wrando ar oedolion, golchi eu dwylo, dweud diolch am eu bwyd a golchi a sychu'r cyllyll a'r ffyrac a'r llestri ar ddiwedd amser byrbryd. Trwy wneud hynny, mae plant yn cymryd eu tro yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau a rhannu llaeth a dŵr o gwmpas y bwrdd bwyd. Caiff helpwr y diwrnod gyfle i gyfrannu'n bwrpasol wrth baratoi a gweini byrbrydau a diodydd.

Ceir trefniadau defnyddiol i gefnogi iechyd a lles plant. Mae trefniadau o'r fath yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad cyffredinol. Mae gan y lleoliad drefniadau effeithlon i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i dyfu berwr mewn potiau dan do. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth plant fod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddietau synhwyrol. Mae heriau chwarae corfforol yn yr ardal awyr agored yn annog plant i ddeall bod ymarfer corff yn cyfrannu'n dda at ffordd iach o fyw.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae modelu sothach yn rhan weithredol o arferion y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae ymarferwyr yn gofalu'n dda am blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae hyn yn cynnwys system hunangofrestru drefnus. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn fuddiol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn teimlo'n hapus a diogel yn eu cwmni. Maent yn aml yn gofyn i ymarferwyr am gymorth a chefnogaeth, y maent yn barod i'w ddarparu.



Mae'r lleoliad yn cofnodi manau cychwyn plant yn gywir pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad gan ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac mae'n nodi a chynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn gweithio gydag asiantaethau priodol, pan fydd angen, i ddarparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i blant ag anghenion ychwanegol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol trwy weithgareddau dyddiol sefydledig ac agweddau cadarnhaol. O ganlyniad, mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineidd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i chwarae â doliau o wahanol gefndiroedd ethnig hefyd a thrafod y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhyngddynt.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o bob plentyn, a chydabyddir eu hunigoliaeth yn llwyddiannus. Mae eu gwaith dyddiol yn herio pob plentyn i wella eu dysgu a bod yn ystyriol a gofalgarg. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol ble caiff pob plentyn yr un cyfle i elwa ar yr holl feysydd dysgu ac offer, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored fel ei gilydd.

Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant unigol. Mae adnoddau effeithiol yn hygyrch i bob un o'r plant. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus wrth i ymarferwyr ddirprwyo tasgau dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys gorchuddio'r twb dŵr, brwsio tywod i fyny a thacluso'r ardal chwarae rôl.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i gyfoethogi tasgau dysgu, ac maent yn defnyddio adnoddau'n effeithiol. O ganlyniad, mae plant yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws meysydd dysgu yn hyderus, er enghraifft wrth greu marciau ar fyrddau sialc i nodi eu henwau ac wrth bysgota am gaeadau cartonau llaeth i gyfateb i rifau yn y twb dŵr.

Mae'r ardal awyr agored ysgogol, ar dir yr ysgol, yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, offer dringo a gwestai chwilod ar gyfer tasgau ymchwiliol. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r gerddi'n synhwyrol ar gyfer chwarae corfforol, sy'n cynnwys dringo strwythurau pren, balansio ar drawstiau a gwau rhwng pensiliau anferth. Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau yn yr ardal leol yn bwrpasol, fel defnyddio amwynderau'r pentref a'r parc yn rheolaidd.

Mae'r adeilad o fewn adeilad yr ysgol ac felly o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus, mewn partneriaeth â phwyllgor rheoli pwrpasol a'r ysgol. Mae'r arweinydd a'i chynorthwydd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Mae ei harferion arwain synhwyrol yn cymell pobl eraill i wneud gwelliannau mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol.

Defnyddia'r arweinydd wybodaeth berthnasol a rheolaidd am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'w ddarpariaeth. Mae'n addysgu'n effeithiol ac yn modelu'r Gymraeg yn briodol mewn llawer o dasgau. Mae'n rhoi cyfeiriad cadarnhaol i arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad ac yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae arferion o'r fath yn diffinio gwahanol rolau cyfrifoldeb yn glir ar gyfer ymarferwyr, i hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn rheoli cynllunio datblygiad yn dda. Mae'r meysydd presennol i'w datblygu yn cynnwys cofnodi arsylwadau dyddiol ar blant yn fwy effeithiol, targedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn fwy effeithlon, gwella defnydd ymarferwyr o'r Gymraeg a pharhau ag arweinyddiaeth a datblygiadau proffesiynol. Gosodir targedau yn erbyn graddfeydd amser addas ac maent yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar sicrhau darpariaeth gadarn i wella deilliannau plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gorff sefydledig ac mae ei arferion yn effeithiol. Mae ganddo rôl annatod ym mywyd gweithredol y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli wedi rhoi lefel drylwyr o arferion sicrhau ansawdd ar waith. Mae ei brosesau monitro yn drylwyr a chadarn ac yn cefnogi'r ymarferwyr yn dda. Mae'r arweinydd yn cynnal goruchwyladau a gwerthusiadau buddiol o ymarferwyr ac mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn gwerthuso gwaith yr arweinydd. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r pwyllgor rheoli'n cael gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd. Mae aelodau'r pwyllgor yn gefnogol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn herio'r lleoliad i gynnal arferion llwyddiannus ac yn cefnogi'r lleoliad yn synhwyrol i ddatblygu meysydd y mae angen eu gwella.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu'n rhan reolaidd o arferion gwella'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn monitro safonau plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn dda, wedi'i seilio i ddechrau ar system sgorio'r awdurdod lleol ar gyfer gwahanol feysydd y ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor rheoli'n cymryd rhan weithredol yn y broses ac mae'n amlygu targedau i'w gwella yn effeithlon.

Mae cydweithredu effeithiol a'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau'r awdurdod lleol, yn cyfrannu'n dda at yr arfer hon. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau pwrpasol dros gyfnod. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y Cyfnod Sylfaen ar waith ac ymgysylltu'n llawn â dilyn strategaeth i wella'r ddarpariaeth a deilliannau plant mewn Cymraeg.

Mae prosesau hunanarfarnu ffurfiol y lleoliad yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cynllun datblygu'r lleoliad yn nodi meysydd cywir i'w gwella. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn dda yn unol â'r targedau ar gyfer gwella. Mae ymarferwyr yn cytuno ar y targedau ac maent yn newid agweddau ar y ddarpariaeth ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, y swyddogion cymorth o Mudiad Meithrin, a'r ysgol. Maent yn gweithredu yn unol â'u cyngor yn gyson. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaledig, fel gwella profiadau i blant yn yr ardaloedd awyr agored, trwy ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol ar y cyd.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i wella darpariaeth a chael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant. Caiff partneriaethau strategol effaith sylweddol ar ddeilliannau plant, yn enwedig cysylltiadau cryf iawn y lleoliad â'r ysgol. Mae'r lleoliad yn yr ysgol ac mae ganddo berthynas lwyddiannus iawn â staff a phennaeth yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo plant yn bwrpasol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac o fudd i'r plant wrth iddynt ymgynffwrdd yn ddidrafferth yn yr ysgol.

Mae partneriaethau'r lleoliad â'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn fuddiol hefyd. Mae perthnasoedd cadarnhaol gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Meithrin yn gwella gwaith y lleoliad mewn tasgau bob dydd ac arferion gweinyddol. Mae menter bresennol i wella Cymraeg plant yn cynorthwyo staff hefyd, gan eu bod yn datblygu patrymau iaith ac ymadroddion cywir mewn tasgau bob dydd.

Defnyddia'r lleoliad gysylltiadau â'r gymuned yn effeithiol i gefnogi ac ysgogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol a'r pentref, fel ymweld â'r swyddfa bost i bostio cerdyn pen-blwydd nawdeg oed at y Frenhines a mynychu gŵyl gynhaeaf yr ysgol yn y capel.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o grwpiau partneriaeth, sy'n gwneud cyfraniad cryf at wella darpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad â hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant diogelu a rheoli ymddygiad.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad, sy'n cynnwys holiaduron a sesiynau gwybodaeth.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella bob agwedd ar waith y lleoliad trwy arwain ymarferwyr yn effeithiol, a dyrannu adnoddau yn effeithlon. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus.

Mae systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn canolbwyntio'n synhwyrol ar sicrhau arferion addysgu ysgogol. Maent yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol hefyd. Mae hyn yn eu hannog i weithio er lles pob plentyn unigol. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu gadarnhaol yn bodoli, sydd â diwylliant cryf o gydweithio gweithredol, yn y lleoliad a gyda phartneriaid eraill fel ei gilydd.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n greadigol i gefnogi dysgu. Mae hyn yn cynnwys datblygu ardaloedd chwarae rôl arloesol. Mae'r rhain yn cynnwys cuddfan wedi'i gwneud o flwch cardfwrdd a dail, a phabell ddarllen, i ysgogi ac ennyn diddordeb plant yn eu dysgu o ddydd i ddydd.

Mae'r pwyllgor rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn effeithiol. Mae systemau ac arferion cadarn yn creu gwelliannau pwrpasol, rheolaidd a chyson mewn darpariaeth. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth gyffredinol ac ar wella deilliannau plant.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth effeithiol sy'n cael ei rhoi ar waith gan ymarferwyr, ac arweinyddiaeth bwrpasol yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

### Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li><li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li><li>• datblygiad mathemategol</li><li>• datblygu'r Gymraeg</li><li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li><li>• datblygiad corfforol</li><li>• datblygiad creadigol</li></ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.